



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Dyfodol gweithgynhyrchu i Gymru: fframwaith gweithredu

Sut dylem ni weithio gyda diwydiannau, undebau
llafur a'r byd academaidd i ddiogelu gweithgynhyrchu
yng Nghymru at y dyfodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21 Medi
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Chwefror 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar y cynllun gweithgynhyrchu arfaethedig a'r camau gweithredu sydd eu hangen gan y llywodraeth, diwydiannau, undebau llafur a'r byd academaidd.

Sut mae ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod erbyn 19 Hydref 2020.

Rhagor o wybodaeth, a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Trawsnewid Diwydiannol,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

e-bost: trawsnewiddiwydanniol@llyw.cymru

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (y Rheoliad)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data dros unrhyw ddata personol rydych chi'n eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am sut i arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw, neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y comisiynir trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata amdanoch sy'n cael eu dal fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am ddim mwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludo data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

e-bost:

DataProtectionOfficer@gov.wales

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Rhagair gan y Gweinidog

Mae gweithgynhyrchu, gyda'i hanes hir yng Nghymru, yn rhan o'n stori genedlaethol. Gweithgynhyrchu yw'r cyfrannwr mwyaf o ran Gwerth Ychwanegol Gros i economi Cymru, ac mae'n darparu swyddi o ansawdd uchel i filoedd o unigolion a dwsinau o gymunedau ar hyd a lled Cymru. Mae gweithgynhyrchu'n bwysicach i Gymru nag i unrhyw ran arall o'r DU, ac mae hynny heb ystyried yr ôl troed cyflogaeth hy, y gweithredu, y gwaith cynnal a chadw a'r gwasanaethau tymor hwy sy'n digwydd o ganlyniad.

Fodd bynnag, mae gweithgynhyrchu yng nghanol newid mawr. O bandemig COVID-19 i Brexit i'r newid yn yr hinsawdd; o'r ffrwydrad o dechnolegau newydd, sy'n effeithio ar ddewisiadau a dymuniadau cwsmeriaid, i gyflymder cynyddol globaleiddio – mae gweithgynhyrchu'n mynd drwy un o'r cyfnodau mwyaf dwys o newid yn ei hanes. Yn ddiweddar, wynebodd y sector her annisgwyl ar ffurf COVID-19, ac ymatebodd drwy helpu i sicrhau diogelwch dinasyddion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru, gyda'i hanes balch o weithio'n agos gyda diwydiant ac undebau llafur, eisiau cefnogi ein gweithgynhyrchu drwy'r cyfnod hwn o newid, gan ei helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol.

Fel y gwnaethom yn glir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, mae helpu diwydiannau Cymru i ddatgarboneiddio a dod yn fwy effeithlon o ran adnoddau; annog mwy o arloesi a lleoli pencadlysoedd yng Nghymru; cynyddu ein potensial allforio; cynyddu nifer y swyddi a sgiliau o safon uchel ym mhob rhan o Gymru, ac ehangu'r sylfaen ymchwil a datblygu yma yng Nghymru, i gyd yn hanfodol i ddiogelu diwydiannau Cymru at y dyfodol ar gyfer yr heriau sydd i ddod. Wrth gwrs, mae her yn ein hwynebu nawr o ran adfer yr economi ar ôl y pandemig, ac mae'r llywodraeth yn glir y dylai hyn fod yn seiliedig ar 4 conglfaen:

- adferiad sy'n seiliedig ar leoedd ac sy'n datgloi'r cyfle i hybu gweithgarwch cydlynus gyda'r partneriaid perthnasol, ar sail cyd-ddealltwriaeth o gryfderau ac anghenion ardal;
- adferiad sy'n seiliedig ar bobl, y mae angen iddo ailwampio ac ailflaenoriaethu darpariaethau prifysgolion, addysg bellach a phrentisiaethau;
- adferiad gwyrdd a chyfiawn sy'n llywio Cymru i ffwrdd o'r argyfwng digynsail hwn i adeiladu economi fwy gwydn sy'n seiliedig ar y diwydiannau sydd eu hangen arnom yn awr ac ar gyfer y dyfodol; ac
- adferiad digidol sy'n sefydlu Cymru fel rhywle sy'n arloesi'n ddigidol.

Rydym wedi trafod gyda rhanddeiliaid bwysigrwydd y gymuned gweithgynhyrchu i Gymru, ei lle yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'i phwysigrwydd o ran cyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n amlwg hefyd fod angen i ni weld gweithredu brys ar lefel y DU hefyd. Mae angen i ni weld gweithgynhyrchu'n esblygu er mwyn wynebu'r heriau mawr a amlinellir yn [Strategaeth Ddiwydiannol](#) llywodraeth y DU ei hun, gan gynnwys:

- Deallusrwydd Artiffisial, a'r economi data ac anghenion seiberddiogelwch;
- twf glân – datgarboneiddio ac ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd;
- dyfodol symudedd – symud at rannu cludiant a cherbydau di-garbon; ac
- ein cymdeithas sy'n heneiddio, a sut gall technolegau newydd helpu.

Bydd y cyfnod hwn o newid yn heriol i weithgynhyrchu yng Nghymru, ond mae hefyd yn gyfle. Drwy groesawu tueddiadau newydd, fel defnyddio deunyddiau amgen sydd â lefel carbon corfforedig is a mwy o awtomeiddio a digidoleiddio, gallwn greu dyfodol newydd i weithgynhyrchu yng Nghymru. Bydd hyn yn golygu newid diwylliant, gan sicrhau ein bod ni fel cenedl yn arloesi mwy, yn gwella ein cynhyrchiant, yn dod yn fwy cystadleuol, yn datblygu ein sgiliau ac yn canolbwyntio ar sut rydym yn mynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Yn fyr, rhaid i ni droi ein cymuned gweithgynhyrchu - gan gynnwys ei chadwyni cyflenwi – i fod yn un sy'n ymwneud mwy a mwy â gweithgarwch 'gwerth ychwanegol'. Mae arnom angen cymuned gweithgynhyrchu o gwmnïau sydd â pherfformiad ariannol cryf, sy'n rhoi gwaith teg wrth galon popeth a wnânt, sy'n ymgymryd â gweithgareddau strategol bwysig ac sy'n cael effaith gadarnhaol yn gymdeithasol, yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol ar eu cymunedau lleol, eu rhanbarthau a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Fel y nodwyd yn ein strategaeth ddrafft ar gyfer economi gylchol, 'Mwy Nag Ailgylchu', mae angen i'r gymuned gweithgynhyrchu gofleidio'n llawn y cyfleoedd a ddarperir drwy symud tuag at economi fwy cylchol. Ein nod yw dod yn wlad lle rydym yn osgoi gwastraff, yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio cyn hired â phosibl ac yn defnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear. Mae'n hawdd adnabod cymuned o'r fath a dyma'r disgrifiad gorau o ddyfodol Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth.

I wneud i hyn ddigwydd, ni allwn ddibynnu ar fusnes fel arfer; yn lle hynny, rhaid i'r llywodraeth, diwydiannau, y byd academaidd, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill edrych ar ffyrdd newydd o gydweithio i greu cymuned sy'n gwneud y canlynol:

- gwarchod a hyrwyddo twf mewn galluoedd gweithgynhyrchu uchel ei werth sy'n bodoli eisoes, yn enwedig drwy Fusnesau Bach a Chanolig, drwy rannu arferion gorau a chydweithredu;
- defnyddio asedau a manteision Cymru i sefydlu mantais gystadleuol;
- gosod ei hun mewn sefyllfa i gynnal a gwella'i chyfraniad at yr economi, cymunedau, yr amgylchedd a diwylliant yng Nghymru, drwy greu cyfleusterau newydd ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi; a
- rhoi arweiniad i gadwyni cyflenwi allweddol ar gyfer gweithgynhyrchu, a help i fanteisio ar gyfleoedd a meysydd newydd.

Rydym eisoes wedi dangos – drwy fuddsoddi yn Aston Martin, Thales, CAF, Airbus ac mewn mannau eraill – sut gall ymdrin yn weithredol â pholisi diwydiannol helpu i gefnogi cyfleoedd twf newydd. Mae'r Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC Cymru) a sefydlwyd ym Mrychdyn yn ddiweddar yn enghraifft o'r math o baratoi ar gyfer y dyfodol sydd ei angen, a bydd y dull hwn o weithredu yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy ddarparu cyfleuster ychwanegol yng Nglannau Dyfrdwy.

Mae'r cynllun gweithgynhyrchu arfaethedig, sydd wedi'i seilio ar yr egwyddorion yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, yn ddatganiad o fwriad ac mae'n nodi'r polisiau, yr ymrwymadau a'r camau y mae angen i bob un ohonom eu cymryd i ddiogelu gweithgynhyrchu yng Nghymru at y dyfodol. Bydd yn cynnwys cynllun gweithredu / cyflawni a gorwel amser i sefydlu gweithgareddau tymor byr, tymor canolig a thymor hir.

Croesawaf eich barn a'ch awgrymiadau ar y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon.

Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Beth yw'r prif faterion?

Y diffiniad o weithgynhyrchu

Gellir diffinio gweithgynhyrchu fel sector ei hun ond, mewn gwirionedd, cyfuniad yw o is-sectorau gan gynnwys bwyd a diod, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, cemegion, electroneg, gwyddorau bywyd, adeiladu, metelau, diogelwch, ynni, awyrofod, amddiffyn a thrafnidiaeth, gan gynnwys y sector modurol a rheilffyrdd.

Mae hwn yn ddisgrifiad eang iawn o lawer o'r gweithgareddau sy'n cyfrannu at lesiant economi Cymru, ac yn gysylltiedig â hyn mae'r gweithgareddau cynnal a chadw a gwasanaethu sy'n digwydd yn eu sgil, sy'n cyfrannu at ein heconomi sylfaenol. Un o'r prif weithgareddau ym maes gweithgynhyrchu yw ychwanegu gwerth wrth brosesu deunyddiau crai neu rannau i'w troi'n nwyddau gorffenedig.

Yn fwy cyffredinol, rydym yn disgwyl i'n cymuned gweithgynhyrchu sicrhau bod ei gweithgareddau'n cael effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gadarnhaol ar lesiant Cymru, gan gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd y cynllun gweithgynhyrchu arfaethedig yn defnyddio'r pum ffordd o weithio a ragnodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan sicrhau y bydd y camau a gymerwn yn:

- Diogelu dyfodol hirdymor gweithgynhyrchu yng Nghymru, gan ddatblygu cymuned carbon isel arloesol;
- Atal dirywiad mewn gweithgynhyrchu a chanolbwyntio ar dwf cynaliadwy drwy arallgyfeirio gweithgarwch y gadwyn gyflenwi;
- Sicrhau integreiddio â chamau gweithredu eraill sy'n cael eu cymryd gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus fel y Cyd-bwyllgorau Corfforedig; Bargeinion Dinesig / Twf a chyrrff Sgiliau;
- Hwyluso cydweithio o fewn y llywodraeth, diwydiannau, y byd academaidd a'r undebau llafur a rhyngddynt, lle bo hynny'n briodol; a defnyddio'r model partneriaeth gymdeithasol a ddatblygwyd yng Nghymru; a
- Chynnwys pobl Cymru, gan adlewyrchu'r gymdeithas y mae gweithgynhyrchu'n gweithredu ynddi a sicrhau cyfle cyfartal.

Bydd y camau gweithredu a gymerwn yn cael eu teimlo ar draws Cymru gyfan, gan adeiladu ar gryfderau rhanbarthol penodol a helpu i ledaenu ffyniant.

Diogelu ar gyfer y dyfodol

Er mwyn sicrhau bod ein cymuned gweithgynhyrchu, gan gynnwys ei chadwyn gyflenwi, yn addas ar gyfer y dyfodol, mae materion pwysig y mae'n rhaid i ni roi sylw iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y newid yn yr hinsawdd a'r angen i warchod ein hamgylchedd a datgarboneiddio ein gweithgareddau masnachol a chymdeithasol, gan gymryd agwedd holistig tuag at yr economi gylchol;
- Newid technolegol fel y rhagwelwyd yn [Cymru 4.0 Cyflawni Trawsnewid Economaidd ar gyfer Gwell Dyfodol Gwaith](#), gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, awtomeiddio, digidoleiddio a'r amgylchedd cysylltiedig;
- Yr angen i fireinio sgiliau i sicrhau bod gennym y bobl â'r sgiliau priodol y mae eu hangen arnom yng Nghymru i weithio ym maes gweithgynhyrchu;
- Darparu seilwaith modern i gynnal newidiadau yn y ffordd rydym yn gweithio a sut rydym yn cael gafael ar gyfleoedd gwaith, gan gynnwys safleoedd ac adeiladau cyflogaeth modern, seilwaith trafndiaeth, seilwaith ynni, seilwaith economi gylchol, systemau cyfathrebu a chyfuno symudedd personol a chyhoeddus;
- Ymrwymadau gwaith teg i sicrhau bod pobl sy'n gweithio ym maes gweithgynhyrchu yn cael eu trin yn deg, yn unol â chontract economaidd Llywodraeth Cymru a'i chod ymarfer ar gyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi;
- Cryfhau'r cydweithio rhwng y llywodraeth, diwydiannau, undebau llafur a'r byd academaidd i gynyddu arloesedd drwy ddefnyddio ymchwil i wella cystadleurwydd;
- Datblygu cymunedau a chlystyrau o fewn is-sectorau gweithgynhyrchu i ddatblygu diwylliant o wella arferion gorau a chydweithredu yn barhaus;
- Cryfhau arweinyddiaeth a rheolaeth ym maes gweithgynhyrchu drwy nodi sgiliau allweddol fel strategaeth a gweithredu a rheoli risg, er mwyn cynnal a datblygu busnesau;
- Gwytnwch y gadwyn gyflenwi a chefnogi'r economi sylfaenol drwy ddod â'r gwaith o weithgynhyrchu eitemau blaenoriaeth yn y gadwyn gyflenwi yn ôl i Gymru, a'u lleoleiddio er budd Cymru, a hynny i ddechrau drwy ofynion caffael cwmnïau / sefydliadau angori allweddol a'r sector cyhoeddus; a
- Sicrhau bod busnesau wedi'u hangori'n gryfach yng Nghymru drwy annog a hwyluso swyddogaethau gwneud penderfyniadau fel pencadlys, ymchwil a datblygu, gwerthu a marchnata a chaffael yng Nghymru.



Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Adroddodd MAKE UK, sy'n cynrychioli cymuned gweithgynhyrchu'r DU, ar gyflwr presennol y sector ym mis Mehefin 2020. Dywedodd fod gweithgynhyrchu wedi ailddyfeisio i hun yn barhaus er mwyn addasu i'r llu o ffactorau a grymoedd sy'n sbarduno newid. Mae gweithgynhyrchwyr wedi profi mai nhw yw'r rhai sy'n creu dyfeisiadau newydd heddiw ac yn dylunio arloesedd ar gyfer yfory. Maent wedi parhau i fuddsoddi yn eu pobl, gan ganiatáu iddynt elwa a chystadlu ar lwyfan byd-eang, ac mewn llawer o achosion maent wedi darparu'r atebion i heriau mwyaf y byd. Er enghraifft, roedd yr ymateb i Her Deori Airbus yn dangos hyblygrwydd a sgiliau ei weithlu ar Lannau Dyfrdwy.

Wrth i ni geisio adferiad ar ôl pandemig COVID-19, bydd ar economi'r DU angen gweithgynhyrchwyr sy'n parhau i weithio'n galed i sicrhau gwytnwch, ffyniant a chyfrifoldeb byd-eang a hybu cynhyrchiant, i yrru twf economaidd a darparu cyfleoedd a rennir ym mhob rhanbarth yn y DU. Mae dyfodol digidol, byd-eang a gwyrdd ar ôl COVID-19 yn bosibl, ond bydd yn galw am weledigaeth eofn, ddewr a newydd ar gyfer ein heconomi – un sy'n rhoi gweithgynhyrchu wrth galon hynny.

Wrth i bandemig COVID-19 daro'n gynnar yn 2020, cafodd gweithgynhyrchu, fel nifer o sectorau, ergyd galed. Bu gostyngiad mewn gwerthiant ac archebion, daeth cadwyni cyflenwi domestig a byd-eang i stop mewn llawer o achosion, cafodd staff eu rhoi ar ffyrlo a chyhoeddwyd diswyddiadau gan lawer o'n prif gwmnïau. Roedd Mynegai Rheolwyr Prynu gweithgynhyrchu'r DU wedi gostwng i 32.6 ym mis Ebrill 2020, y gwerth isaf ers i gofnodion ddechrau. Disgynnodd cynnyrch gweithgynhyrchu i'r lefel isaf erioed, gyda rhai cwmnïau'n cynhyrchu llai ac eraill yn ailgyfeirio eu gweithrediadau tuag at gynhyrchu cyfarpar ar gyfer y gwasanaeth iechyd.

Roedd data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer y DU ym mis Ebrill 2020, mis llawn cyntaf cyfyngiadau symud y DU, yn tynnu sylw at effaith COVID-19 ar economi'r DU; gostyngodd cynnyrch domestig gros 20.4%, y gostyngiad mwyaf ers i gofnodion misol ddechrau yn 1997, sy'n cyfateb i ostyngiad o tua £30 biliwn mewn gwerth ychwanegol gros. Dywedodd llawer o fusnesau nad oedd ganddynt unrhyw drosiant. O'r 13 is-sector gweithgynhyrchu, cofnododd 11 y gostyngiadau mwyaf ers i'r cofnodion ddechrau yn 1968, gydag offer trafniadaeth yn cael ei daro galetaf – roedd twf yr is-sector hwn wedi'i gofnodi ar -50.2%.

Arweiniodd yr effaith ar weithgynhyrchu awyrofod at ostyngiadau cynnyrch o 30-40% o ran awyrennau un eil a 50% ar awyrennau corff llydan, a disgwylir i hyn barhau tan 2023/24. Yn y sector modurol, roedd allbwn y farchnad ceir newydd wedi gostwng 34.9% ac roedd y ffigurau gweithgynhyrchu hanner blwyddyn 38.2% yn is hefyd ym mis Mehefin.

Yng Nghymru, dywedodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith (Cymru) fod tua un rhan o bump o'r gweithlu yng Nghymru, ar ddechrau'r argyfwng, yn gweithio mewn 'sectorau cau lawr' sydd wedi cael eu taro waethaf gan y coronafeirws.

Mae sectorau gweithgynhyrchu allweddol yng Nghymru wedi cael eu taro'n galed ac mae'r sefyllfa wedi amharu'n ddifrifol arnynt, yn enwedig cynhyrchu cerbydau, awyrofod a dur. Mae hyn wedi bod yn amlwg gyda'r pum cyflogwr awyrofod mwyaf yng Nghymru i

gyd wedi cyhoeddi cynlluniau ailstrwythuro mawr yn ystod haf 2020. Wrth ychwanegu hyn at yr ansicrwydd yn sgil gadael yr UE, ynghyd â'r newid i ôl troed carbon is, cystadleuaeth fyd-eang sy'n cynyddu drwy'r amser, a heriau technolegau newydd fel deallusrwydd artiffisial, seiber a digidoleiddio, mae'n ddealladwy pam mae'r cyfeiriad at senario storm berffaith wedi cael ei ddwyn i'r amlwg.

Er gwaethaf yr amodau masnachu eithriadol o anodd hyn, mae rhai sectorau wedi gweld galw sefydlog neu hyd yn oed fwy o alw, ac mae'r rhain yn cynnwys bwyd a diod (lletygarwch y tu allan), cynhyrchion fferyllol a chemegion. Roedd y rhan fwyaf o weithgynhyrchwyr y DU (94%) yn dal yn weithredol. Rydym yn gobeithio bod hyn yn arwydd fod adferiad ar droed, dan arweiniad llawer o gwmnïau gweithgynhyrchu, a addasodd eu ffatrïoedd a'u cadwyni cyflenwi i gynhyrchu cyfarpar a chyflenwadau hanfodol ar gyfer y sector iechyd, gan gynnwys peiriannau anadlu a chyfarpar diogelu personol yn ystod cyfnod prysuraf y pandemig sy'n dal i fod gyda ni.

Mae gweithgynhyrchwyr hefyd wedi arwain y ffordd o ran gweithredu a dangos arferion gorau o ran dychwelyd i'r gwaith. Mae'r sector yn wynebu heriau sylweddol wrth iddo barhau i frwydro yn erbyn COVID-19.

Newid i Weithgynhyrchu Uchel ei Werth

Mae gweithgynhyrchu yng Nghymru yn cynnwys ystod eang iawn o weithgareddau, sy'n amrywio o awyrofod a lled-ddargludyddion i gynhyrchu bwyd a pheirianeg fach. Ein nod yw sicrhau bod ein holl weithgareddau yn rhai "uchel eu gwerth", yn yr ystyr eu bod yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Felly, rhaid addasu'r camau rydym yn cytuno i'w cymryd mewn partneriaeth yn ôl y rhanbarth, y sector diwydiannol a maint y sefydliad, i sicrhau bod pob rhan o Gymru yn elwa. Rydym yn cydnabod bod gan wahanol rannau o Gymru gryfderau gwahanol, a rhaid i ni sicrhau bod y camau a gymerwn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhanbarthol hyn.

Ni all y cynigion yn y cynllun gweithgynhyrchu sefyll ar eu pen eu hunain, a bydd angen i'r camau y byddwn yn eu cymryd gyda'n partneriaid cymdeithasol drwy ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi gael eu hategu lle bo hynny'n briodol drwy Strategaeth Ddiwydiannol y DU, gan gynnwys y meysydd a restrir yn yr Heriau Mawr. Mae'r rhain yn cynnwys "Gyrru'r Chwyldro Trydanol", "Hedfan yn y Dyfodol", "Ffynnu yn sgil y Chwyldro Ynni" a "Thrawsnewid Adeiladu".

Byddwn yn parhau i sefydlu contractau economaidd ymestynnol ar draws rhanbarthau Cymru gyda chwmnïau yng Nghymru, yn enwedig y rheini sy'n cael cymorth gan y Llywodraeth, fel bod perthynas ddwyochrog a fydd yn golygu:

- Y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu buddsoddiad cyhoeddus i alluogi busnesau i newid i weithgareddau uchel eu gwerth, yn ogystal â defnyddio gwariant caffael cyhoeddus i ddangos sut gall y galw yrru'r agenda; ac
- Y bydd cwmnïau gweithgynhyrchu yn darparu twf economaidd drwy arloesi ac yn ystyried y posibilrwydd o allforio cynnyrch sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru, ochr yn ochr â sicrhau gwaith teg ac amgylchedd gwaith iach, ac yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn well.

Mae contractau economaidd yn ddangosyddion pwysig o sut mae'r gymuned gweithgynhyrchu'n ymgysylltu ac yn cyd-fynd â'r llywodraeth, a byddant yn fesur allweddol wrth bennu llwyddiant y cynllun gweithgynhyrchu arfaethedig. Yn y sector gweithgynhyrchu, gellid defnyddio'r cytundebau hyn i gryfhau ein hymrwymadau i waith teg, cadwyn gyflenwi leol a phroses leol i wneud penderfyniadau o ran ymchwil, datblygu ac arloesi. Bydd hyn yn ffocws pwysig os ydym am angori a denu cwmnïau gweithgynhyrchu i Gymru.

Tystiolaeth o blaid newid

Comisiynwyd arolwg cynhwysfawr - *'Manufacturing in Wales – Mapping and Capacity Survey'* gan Lywodraeth Cymru a Diwydiant Cymru, ac fe'i cynhaliwyd gan Wavehill Consulting yn 2017. Cafodd ymatebion gan 713 o gwmnïau, gyda'i gilydd yn cyflogi tua 26,000 o weithwyr. Lluniwyd yr ymarfer casglu data hwn i ganfod ac adrodd ar alluoedd, dyheadau a chyfleoedd cadwyni cyflenwi'r sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethau gweithgynhyrchu yng Nghymru. Roedd yr arolwg yn targedu cwmnïau yn y sectorau sydd wedi'u diffinio'n barod, fel deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, bwyd a diod, gwasanaethau creadigol, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, adeiladu, ynni a'r amgylchedd, gwyddorau bywyd a morol.

Tynnodd sylw at nifer o faterion, gan gynnwys:

- ysbryd entrepreneuriaid y sector;
- y lefel gymharol uchel o brynu nwyddau a gwasanaethau o'r tu allan i Gymru;
- bod diffyg cysylltiadau priodol yn rhwystr rhag tyfu;
- y lefel isel o awtomeiddio / roboteg;
- y defnydd isel o brosesau rheoli neu wella darbodus;
- y buddsoddiad cymharol isel mewn ymchwil a datblygu ac arloesi;
- y lefel gymharol isel o gysylltiadau â'r byd academiaidd;
- y gwerth ychwanegol gros cymharol isel fesul gweithiwr, yn enwedig mewn cwmnïau llai;
- gwerth cymharol isel gwerthiannau tramor;
- pwysigrwydd mewnffuddsoddiad; a'r
- anawsterau wrth recriwtio staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol.
-

Datgelodd un o'r prif ganfyddiadau nad diffyg gallu i fynd i'r afael â'r materion hyn oedd y broblem o bosibl, ond diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n bodoli'n barod a sut i gysylltu â phartion o'r fath.

Mae'n bwysig nodi bod yr arolwg hwn wedi cael ei gynnal cyn i'r DU adael yr UE a chyn COVID-19, felly efallai y bydd newidiadau ym mlaenoriaethau cwmnïau. Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r ddogfen ymgynghori hon, gwnaethom gynnal trafodaethau cychwynnol gydag amrywiaeth o randdeiliaid a oedd yn cynnwys diwydiannau, ac awgrymodd y trafodaethau hyn fod angen adolygiad pellach o gapasiti a gallu yng ngoleuni'r datblygiadau diweddar. Awgrymwyd y dylid ystyried tystiolaeth newydd sy'n ymwneud â datblygu dulliau gweithredu ar gyfer economi gylchol / carbon isel, ymchwil, cymorth datblygu ac arloesi, awtomeiddio, digidoleiddio, deallusrwydd artifisial a chynlluniau arferion da dan arweiniad y diwydiant ar weithio'n ddiogel.

Caffael yn y Sector Cyhoeddus

Mae cyrff sector cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn gwario £6.3 biliwn y flwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau allanol. Mae'r dadansoddiad ystadegol a wnawn yn awgrymu bod 52% o'r gwariant hwnnw gyda chwmnïau yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad yn manylu ar faint sy'n cael ei wario ar nwyddau sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru, ac nid yw ychwaith yn cynnwys y gwariant drwy gyrrff hyd braich fel Trafnidiaeth Cymru, cwmnïau cyfleustodau fel Dŵr Cymru neu sefydliadau trydydd sector fel landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n cael symiau sylweddol o

arian cyhoeddus. Hefyd, mae nifer o asiantaethau llywodraeth y DU yn gweithredu yng Nghymru fel y Swyddfa Gartref, yr Awdurdod Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA), Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) a'r Adran Gwaith a Phensiynau, nad yw'n hawdd cael gaffael ar eu gwariant yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu bod angen dadansoddiad manylach o faint o'r cynnyrch sy'n cael ei gaffael gan y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n cael ei wneud yng Nghymru.

Rydym hefyd yn cyhoeddi cynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru, sy'n disgrifio ystod o waith seilwaith arfaethedig fel prosiectau ffyrdd, rheilffyrdd, ysgolion ac ysbytai, a allai fod yn gyfle i weithgynhyrchwyr yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd.

Drwy ddatganiad polisi caffael Cymru, mae gennym amcanion clir ar gyfer y sector cyhoeddus o ran gwneud yn fawr o fanteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yr arian sy'n cael ei wario. Ochr yn ochr â hyn, mae ein "cod ymarfer cyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi", sy'n clymu sefydliadau i ymrwymo i set o egwyddorion i sicrhau bod ffynonellau'n cael eu defnyddio'n foesebol. Ni hefyd oedd llofnodwr cyntaf "Siarter Dur" llywodraeth y DU, yn ymrwymo i gefnogi'r sector drwy osgoi dympio dur rhad.

Mae Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi nodi nifer o gamau cynhwysfawr i gefnogi'r economi sylfaenol yng Nghymru, gan gynnwys cronfa arbrofol newydd gwerth £4.5 miliwn i brofi syniadau newydd; camau i dyfu'r cwmnïau 'coll o faint canolig' yn economi Cymru yn ogystal â lledaenu arferion gorau ledled y wlad. Mae gwersi pwysig i'w dysgu o'r gwaith hwn wrth i ni geisio gwella effaith y sector ar gymunedau ac economïau rhanbarthol Cymru.

Mae caffael yn y sector cyhoeddus yn cynrychioli gwariant sylweddol ar gynnyrch wedi'i weithgynhyrchu, ac mae'n cynnwys ymrwymïadau sylweddol ar ffynonellau moesebol a lleol. Gallai'r argyfwng COVID-19 presennol, er nad yw wedi dod i ben eto, arwain at newid sylweddol yn y ffordd y mae cadwyni cyflenwi a chaffael yn gweithredu. Gallai dull mwy cydlynol o gaffael prosiectau a ariennir yn gyhoeddus arwain at well cyfleoedd i weithgynhyrchwyr Cymru, wrth i ni ymateb i hyn a newidiadau ehangach mewn technoleg a masnach.

Cymorth i fusnesau ac i arloesi

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu pob math o gymorth i fusnesau drwy Busnes Cymru, sy'n gweithredu fel porth i'r gwahanol raglenni sydd ar gael. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyflogi cynghorwyr arbenigol ac yn ddibynnol ar gyllid Ewropeaidd. Bu gwerthusiad canol tymor o'r gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2018 yn edrych ar y canlynol:

- Gwasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru
- Rhaglen Cyflymu Twf
- Entrepreneuriaeth Ieuenctid
- Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol
- Rhaglen Defnyddio Band Eang Cyflym Iawn

Roedd yr ymchwil yn cynnwys archwilio gweithrediad y rhaglenni hyd yma, asesu'r cynnydd a wnaed o ran cyrraedd targedau Rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol

Ewrop a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys themâu trawsbynciol. Bu hefyd yn edrych ar effaith y rhaglenni ar fusnesau ac unigolion. Dyma'r prif gasgliadau:

- Sefydlwyd gwasanaeth Busnes Cymru fel 'siop un stop' ar gyfer busnesau a busnesau newydd i gael gafael ar gymorth, ac mae hyn ar y ffordd i gael ei gyflawni.
- Mae'r model gwasanaeth yn gweithio'n dda ac mae'r rhaglenni'n cael eu darparu i safon uchel.
- Ceir cytundeb cyffredinol ymysg darparwyr cymorth i fusnesau bod Busnes Cymru yn ategu'r cymorth arall a gynigir i fusnesau, ac yn llenwi bwlch mawr yn yr hyn sydd ar gael i entrepreneuriaid a busnesau.
- Dywedodd busnesau ac entrepreneuriaid a gyfwelwyd eu bod wedi gwella eu gweithgareddau busnes o ganlyniad i'r cyngor a'r gefnogaeth a gawsant. Gallai'r rhan fwyaf gyfeirio at effeithiau cadarnhaol ar eu heffeithlonrwydd neu eu trosiant.
- Mae'r rhaglenni wedi creu twf busnes. Adeg dadansoddi'r wybodaeth fonitro ar gyfer y gwerthusiad, roedd busnesau a oedd wedi cael cymorth wedi cynyddu'u hallforion £66m (£183,000 fesul busnes a gafodd gymorth) ac wedi creu 8,223 o swyddi.
- Cymysg fu'r cynnydd yn erbyn targedau allbwn Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Mae rhaglenni arloesi Arloesedd SMART, SMART Cymru ac Arbenigedd SMART yn rhan o wasanaeth Busnes Cymru ac maent yn *cynnwys* cymorth i fusnesau fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu, cyflwyno technegau a thechnolegau newydd ym maes dylunio a gweithgynhyrchu, diogelu asedau drwy hawliau eiddo deallusol a mynediad at gyfleusterau ac arbenigedd mewn prifysgolion a cholegau.

Mae'r [gwerthusiadau canol tymor](#) ar gyfer y rhaglenni SMART wedi cael eu cwblhau ac maent yn argymhell y dylai'r rhaglenni SMART barhau i ymateb i anghenion y diwydiant, yn enwedig yn y maes ar gymorth gweithgynhyrchu a dylunio. Dylai'r rhaglenni barhau i ddatblygu ac esblygu yn y maes hwn.

Gyda chyllid Ewropeaidd yn dod i ben yn 2020, mae rôl Busnes Cymru yn y dyfodol yn cael ei hystyried, a bydd cefnogaeth i'r sector gweithgynhyrchu yn elfen bwysig o hyn.

Mae ein Cronfa Cadernid Economaidd, sydd werth £500 miliwn, wedi cael ei hystyried gan fusnesau yn rhan allweddol o gefnogi busnesau yn ystod y pandemig. Cafodd y Gronfa Cadernid Economaidd ei chyflwyno i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i gwmnïau o bob maint yng Nghymru (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) nad oeddent eisoes wedi elwa o gynllun y DU. Mae dwy brif elfen i'r Gronfa Cadernid Economaidd:

1. Cronfa gwerth £100 miliwn gan Fanc Datblygu Cymru i gwmnïau sy'n wynebu problemau llif arian o ganlyniad i'r pandemig, gyda benthyciadau ar gyfraddau llog ffafriol.
2. Dyrannwyd £400 miliwn ar gyfer grantiau i ficrofusnesau, busnesau bach a chanolig a chwmnïau mwy yng Nghymru sydd o bwysigrwydd cymdeithasol neu economaidd hollbwysig i Gymru.

Hyd yma, mae gweithgarwch gweithgynhyrchu yng Nghymru wedi cael dros £80 miliwn o gymorth gan y Gronfa Cadernid Economaidd.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid - y llywodraeth, y gymuned gweithgynhyrchu, undebau llafur a'r byd academiaidd

Mae trafodaethau cychwynnol â rhanddeiliaid a'r gwersi a ddysgwyd yn sgil pandemig COVID-19 wedi ein helpu i nodi deg thema, sy'n cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn diogelu gweithgynhyrchu yng Nghymru at y dyfodol. Mae llywodraeth Cymru, diwydiannau, undebau llafur a'r byd academiaidd eisoes yn cymryd camau gweithredu ym mhob un o'r deg maes, ond mae consensws cyffredinol y gellir cael llawer mwy o werth o gydlynu ein dull gweithredu yn y meysydd hyn i gefnogi ein cymuned gweithgynhyrchu.

Un o'r argymhellion allweddol a ddeilliodd o adolygiad Brown, y cyfeirir ato'n ddiweddarach yn y papur hwn, oedd:

Fel sail i'r weledigaeth hon, dylid cychwyn trafodaeth genedlaethol gyda dinasyddion ynghylch dyfodol gwaith a'r economi yng Nghymru, gyda'r bwriad o annog trafodaeth am yr heriau a'r cyfleoedd a ddaw o ganlyniad i arloesedd digidol (gan gynnwys dylanwad cynyddol deallusrwydd artiffisial).

Bwriadwn ddefnyddio'r broses ymgynghori i gychwyn sgwrs genedlaethol ar ddyfodol y sector gweithgynhyrchu.

Cynigion / themâu ar gyfer y cynllun gweithgynhyrchu

Cyffredinol

A) Capasiti a Gallu Cymuned Gweithgynhyrchu Cymru

Mae gwybodaeth fanylach am gapasiti a gallu cymuned gweithgynhyrchu Cymru yn hanfodol er mwyn i'r llywodraeth, diwydiannau, undebau llafur a'r byd academaidd wneud penderfyniadau ar y camau i'w cymryd. Cyhoeddwyd arolwg mapio a gallu gweithgynhyrchu yng Nghymru yn 2017, ac roedd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar allu cymuned gweithgynhyrchu Cymru i ymateb i heriau yn y dyfodol. Gyda'r datblygiadau cyflym ym maes technoleg, yr argyfwng newid hinsawdd sydd wedi'i ddatgan, canlyniadau gadael yr UE ac effaith pandemig COVID-19, mae'n ymddangos yn amserol edrych eto ar yr arolwg hwn i helpu i lywio camau pellach. Yn benodol, byddai angen iddo gynnwys cwestiynau i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd, fel yr economi gylchol / economi carbon isel, a gwersi o'r pandemig, fel cadernid y gadwyn gyflenwi, ymchwil, cymorth datblygu ac arloesi, yn ogystal ag ystyried awtomeiddio, digidoleiddio, deallusrwydd artiffisial, a chynlluniau arferion da sy'n cael eu harwain gan y diwydiant ar weithio'n ddiogel.

Rydym felly'n bwriadu adnewyddu'r arolwg mapio a gallu gweithgynhyrchu yng Nghymru er mwyn cyfrannu at ddadansoddiad PESTEL a SWOT o'r sector.

B) Caffael yn y sector cyhoeddus

Bob blwyddyn mae sector cyhoeddus Cymru (gan gynnwys y GIG, Llywodraeth Leol, Addysg a Llywodraeth Cymru ei hun) yn caffael cynnyrch a gwasanaethau gwerth £6.3 biliwn. Pan fyddwn yn ymrwmo i'r contractau hyn, rydym yn gwneud mwy na dim ond prynu'r pethau y mae ar wasanaethau cyhoeddus eu hangen; rydym yn buddsoddi yn yr economi ac yn cefnogi pobl yng Nghymru. Mae symiau mawr o arian cyhoeddus hefyd yn cael eu gwario gan gyrff hyd braich fel Trafnidiaeth Cymru, cwmnïau cyfleustodau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a allai gynnig cyfleoedd i weithgynhyrchu yng Nghymru.

Mae gennym bolisi buddiannau cymunedol sydd wedi hen ennill ei blwyf, sy'n gosod ein disgwyliadau o ran ffynonellau cynaliadwy a moesegol, ac rydym yn bwriadu parhau i ddefnyddio pŵer caffael cyhoeddus i gefnogi gweithgynhyrchu yng Nghymru. Mae dull y sector cyhoeddus o gaffael wedi'i nodi yn [natganiad polisi caffael Cymru](#).

Yn ogystal â gwariant sefydliadau sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, mae nifer fawr o gyrff Llywodraeth y DU yn gweithredu yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys DVLA, Cyllid a Thollau EM, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gwasanaethau Masnachol y Goron a'r Swyddfa Gartref; mae'r gyrff hyn yn caffael llawer iawn o nwyddau a gwasanaethau, ac mae cyfleoedd ar gyfer gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Mae'r polisi caffael cyhoeddus yn cefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gryf, ac mae nifer o fentrau ar y gweill ar hyn o bryd a fyddai'n rhoi cyfle i'r sector gweithgynhyrchu.

Drwy ddeall dyfnder cadwyn gyflenwi'r sector cyhoeddus, efallai y bydd modd dechrau datblygu'r sylfaen gweithgynhyrchu a thyfu'r busnesau hyn, gan ddefnyddio galw cyfun y sector cyhoeddus i helpu i ddenu ac angori cwmnïau yng Nghymru. Yn rhan o hyn, gellid dod â phrif gontractwyr neu gontractwyr haen un at ei gilydd, a gallent weithio gyda gweithgynhyrchwyr Cymru yn eu cadwyn gyflenwi.

Rydym hefyd yn defnyddio gwariant y sector cyhoeddus i ysgogi dulliau gweithgynhyrchu newydd. Sefydlwyd GovTech Catalyst, sy'n werth £20 miliwn, gyda chylch gwaith ar draws y DU. Cronfa technoleg newydd yw GovTech Catalyst, ac mae'n cael ei rhedeg gan Swyddfa'r Cabinet, Trysorlys EM a BEIS gyda chefnogaeth y gweinyddiaethau datganoledig, ac mae'n canolbwyntio ar ddatrys heriau yn y sector cyhoeddus. Mae'r gronfa ar gael ar draws y sector cyhoeddus, gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau lleol a chyrrff hyd braich. Cydnabyddir Cymru fel un o brif ymarferwyr y DU.

Dyma rai o'r heriau ag iddynt thema ddigidol y mae GovTech yn gweithio arnynt ar hyn o bryd:

- Cyngor Sir Fynwy: Mynd i'r afael ag unigrwydd gydag atebion sy'n galluogi cymunedau i helpu ei gilydd mewn ardaloedd gwledig sy'n ddfreintiedig o safbwynt digidol a thrafnidiaeth.
- Cyngor bwrdeistref sirol Blaenau Gwent a chyngor sir Durham: Trawsnewid darpariaeth gwasanaethau cynghorau lleol drwy ddadansoddi data a gasglwyd drwy ddulliau deallus.
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru: Gwella gweithrediadau a diogelwch diffoddwyr tân gyda thechnoleg ddigidol, sy'n tracio diffoddwyr tân mewn amgylchiadau gelyniaethus a pheryglus; gwella ymwybyddiaeth a diogelwch gweithredol.
- Cyngor Torfaen: Defnyddio data a thechnoleg ddigidol i wella ansawdd a chynyddu effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydweithio â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Audit Scotland i ddatblygu dull archwilio wedi'i alluogi ar gyfer data yn y sector cyhoeddus sy'n defnyddio technegau dadansoddi a dysgu peirianyddol ar gyfer dadansoddeg archwilio ariannol a dadansoddeg gwerth am arian.

Rydym hefyd wedi cefnogi 16 o heriau caffael cyn-fasnachol o dan y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI), gyda chyfran sylweddol yn y sectorau iechyd a gofal wedi'u hanelu at sicrhau buddion uniongyrchol a mesuradwy i bobl Cymru. Sefydlwyd canolfan ragoriaeth SBRI ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r ganolfan, sydd ar gyfer Cymru gyfan, yn ceisio sbarduno arloesedd sy'n cael ei arwain gan heriau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n adeiladu ar heriau cynharach sy'n cynnwys: helpu pobl â dementia i fyw'n fwy annibynnol, datblygu atebion digidol i ganiatáu i nyrsys dreulio mwy o amser yn darparu gofal wrth ochr y gwely, a systemau gwybodaeth i wneud ein system gofal iechyd yn fwy effeithlon.

Dyma rai o'r prosiectau SBRI sy'n gysylltiedig ag iechyd sy'n cael cefnogaeth gennym ni:

- atebion digidol i leihau'r baich gweinyddol ar staff nyrsio;

- atebion digidol i godio clinigol ar gyfer gwasanaeth iechyd digidol;
- sicrhau bod pobl sydd wedi cael anafiadau i'r ymennydd yn gallu byw'n fwy annibynnol; a
- manteisio ar ddata iechyd er mwyn gwella iechyd a llesiant ein poblogaeth.

Mae 27% o'r holl gyllid GeoTech sydd ar gael drwy'r DU wedi cael ei ennill yn gystadleuol gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni eu heriau.

O ran Ymgysylltu Rhyngwladol, ymunodd Cymru â Menter Vanguard yn 2016, ac ers hynny mae wedi bod yn datblygu ei rôl fel aelod gweithgar o'r rhwydwaith. Mae academyddion o brifysgolion Bangor ac Abertawe yn cyfrannu at weithgareddau arddangos a chydweithio craidd y rhwydwaith (prosiectau peilot) ar weithgynhyrchu cynaliadwy a bioeconomi. Mae ein haelodaeth o Fenter Vanguard yn rhoi llwyfan i Gymru i barhau i gydweithio â phartneriaid yn yr UE y tu hwnt i gyfnod pontio'r UE, gan ddangos ein bod yn bartner cydweithredol credadwy a difrifol.

Rydym yn cynnig parhau â'r gwaith ar gaffael yn y sector cyhoeddus ond ei ymestyn i gynnwys cyrrff hyd braich, cwmnïau cyfleustodau ac adrannau llywodraeth y DU.

Rydym hefyd yn bwriadu adeiladu ar y gwaith a wnaed ar ddefnyddio caffael yn y sector cyhoeddus fel catalydd i arloesi, ac ymestyn ein cydweithrediad rhyngwladol i gefnogi ein sector gweithgynhyrchu.

C) Y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r [cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru](#), ac mae gweithgarwch o dan y cynllun yn cael ei oruchwylio gan y Comisiwn Seilwaith. Mae rhan fawr o'r buddsoddiad hwn yn ymwneud â gweithgynhyrchu cynnyrch, ac mae'n bwysig bod gwelededd y cynllun hwn yn parhau. Mae'r cynllun yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd a bydd yn darparu gwybodaeth dda am y cyfleoedd ar gyfer gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Fel enghraifft o'r cyfleoedd a nodwyd yn y cynllun seilwaith, rydym wedi cyhoeddi strategaeth ar gyfer y sector tai, "[Ailddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru: Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol.](#)"

Anelir y strategaeth hon at ddarparu'r tai cymdeithasol a fforddiadwy yng Nghymru. Mae'n nodi disgwyliadau yn ymwneud â chynhyrchu cartrefi sy'n cael eu hadeiladu gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern (DAM). Rydym yn barod i annog y farchnad, fel y gall busnesau bach a chanolig Cymru ddatblygu atebion DAM, cadwyni cyflenwi, ffatrïoedd a chanolfannau datblygu sgiliau sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth nesaf o dai cymdeithasol yng Nghymru. Disgwylir y bydd y deunyddiau a'r cydrannau a ddefnyddir yn y genhedlaeth nesaf hon o gartrefi DAM yn ei gwneud yn bosibl, pryd bynnag y bo modd, i ddefnyddio deunyddiau a llafur sy'n cynnig y gwerth cymdeithasol a moesegol mwyaf posibl i bobl Cymru.

Rydym yn bwriadu tynnu sylw ymhellach at y cyfleoedd ar gyfer gweithgynhyrchu yng Nghymru o dan y cynllun seilwaith, drwy ddadansoddi manylion prosiectau a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y polisi budd i'r gymuned yn cael ei roi ar waith.

1) Y newid yn yr hinsawdd, yr angen i ddiogelu ein hamgylchedd a datgarboneiddio ein gweithgareddau masnachol a chymdeithasol, gan fabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â'r economi gylchol er mwyn cefnogi datgarboneiddio a darparu cadwyni cyflenwi sy'n fwy cadarn ac effeithlon ac sy'n fyrrach ar gyfer deunyddiau crai a chydrannau i'w defnyddio yn y maes gweithgynhyrchu yng Nghymru

Ar 29 Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng newid hinsawdd. Tynnodd y cyhoeddiad sylw at faint ac arwyddocâd y dystiolaeth ddiweddaraf gan y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd, ac mae'n adlewyrchu dyfnder y teimlad a fynegwyd mewn protestiadau hinsawdd ledled y DU.

Wrth symud i ddyfodol carbon isel, mae sicrhau diwydiant ac amgylchedd busnes cynaliadwy, cystadleuol, yn hollbwysig. Mae angen llywio twf economi gadarn lle gallwn barhau i fanteisio ar ein galluoedd mewn marchnadoedd a thechnolegau carbon isel newydd, wedi'u seilio ar sylfaen ddiwydiannol gystadleuol. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i leihau allyriadau o'n busnes gweithgynhyrchu, a defnyddio technolegau a ffynonellau ynni newydd i wneud hyn. Mae angen i ni weithio hefyd gyda'n diwydiannau gweithgynhyrchu i fanteisio ar gyfleoedd o'r ymdrech fyd-eang i leihau allyriadau carbon. Bydd datblygu gwir economi gylchol yng Nghymru yn allweddol.

Mae Ffyniant i Bawb: [Cymru Carbon Isel](#) yn cydnabod bod datgarboneiddio yn cynnig cyfleoedd sylweddol i greu economi ffyniannus sy'n gyfiawn yn gymdeithasol. Mae'r cynllun yn dweud sut byddwn yn mynd ati i osod y sylfeini er mwyn i Gymru symud i economi carbon isel mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddion ehangach mwyaf posibl i Gymru.

O ran allyriadau Cymru ei hun, sef 14.0 MtCO₂e, y sector diwydiant oedd i gyfrif am 29% o [allyriadau Cymru yn 2016](#). Mae allyriadau diwydiannol yng Nghymru yn cael eu dominyddu gan gynhyrchu haearn a dur (11% o allyriadau Cymru yn 2016), a phuro petrolewm (4.9%). Mae diwydiant yn ehangach, gan gynnwys gweithgynhyrchu ac adeiladu (2.8%), sment, cynhyrchu a dosbarthu nwy, gweithredu peiriannau, mwynau a mwyngloddio, cynhyrchu cemegol, papur a mwydion a gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod hefyd i gyfrif am gyfran sylweddol o allyriadau.

Mae'r rhan fwyaf o allyriadau diwydiannol yn codi o glwstwr o weithrediadau yng nghoridor De Cymru, sy'n cael eu dominyddu gan gynhyrchu dur a phuro olew. Yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, mae'r prif weithfeydd diwydiannol sy'n allyrru carbon wedi'u canoli'n bennaf yn ardaloedd Awdurdodau Lleol Sir y Fflint a Wrecsam, ac maent yn cynnwys gweithgynhyrchu sment, dur a phapur a mwydion. Mae gan Dde Cymru rwydwaith o ddiwydiannau (Clwstwr Diwydiant De Cymru) ar hyd coridor M4 De Cymru o Arfordir Penfro i Bont Hafren. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu haearn a dur, cynhyrchu pŵer, puro olew, sment, cemegion, papur a mwydion, puro nicel, bwyd a diod a gweithrediadau gweithgynhyrchu cyffredinol. Yng Ngogledd Cymru, mae camau'n cael eu cymryd drwy Fargen Twf Gogledd Cymru a thrwy ymgysylltu â chlwstwr datgarboneiddio diwydiannol Glannau Mersi.

Rydym yn gweithio gyda chwmnïau i ddeall y dulliau gorau o ddatgarboneiddio yn y tymor byr, canolig a hir. Mae hyn yn cynnwys ystyried technolegau fel dal a storio carbon a hydrogen.

Datgarboneiddio, gan gynnwys twf glân, yw un o gonglfeini allweddol ein contract economaidd ac mae gweithredu yn y maes hwn yn ofyniad er mwyn cael cyllid. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein trafodaethau ar y contract economaidd gyda cwmnïau i ddeall pa gamau y maen nhw'n eu cymryd i leihau eu hól troed carbon, ac yn eu cyfeirio at ragor o gymorth.

Mae'n hanfodol fod cwmnïau gweithgynhyrchu'n ymgysylltu'n llawn â'r cyfleoedd sydd ar gael gan Lywodraeth y DU i fuddsoddi mewn technolegau newydd i ddatgarboneiddio ac ymchwilio iddynt. Byddwn yn gweithio gyda'n cwmnïau gweithgynhyrchu i sicrhau'r cyllid mwyaf posibl gan raglenni llywodraeth y DU, gan gynnwys y Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol, y mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno y bydd yn cwmpasu Cymru. Lansiodd llywodraeth y DU y Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol gwerth £315m ym mis Mehefin 2020, ac mae i fod i weithredu tan 2024. Bydd y Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol yn darparu cyllid ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio dwfn, gan gynnwys dal carbon diwydiannol.

Ein nod yn '[Mwy Nag Ailgylchu](#)' yw dod yn wlad lle rydym yn osgoi gwastraff, yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio cyn hired â phosibl, ac yn defnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear.

Mae cadwyni cyflenwi byr a defnyddio mwy ar ffynonellau lleol yn nodwedd o economi gylchol a all felly helpu i fynd i'r afael â'r materion sy'n deillio o fregusrwydd cadwyni cyflenwi hirach y tynnwyd sylw atynt gan COVID-19.

Mae gennym wasanaeth casglu deunyddiau ailgylchu o'r radd flaenaf sy'n gallu cynnig mantais gystadleuol a mwy o werth ychwanegol economaidd. Mae angen i ni symud o'r sefyllfa lle mai ychydig iawn o brosesu a wneir ar ddeunyddiau ailgylchadwy a'u bod yn cael eu hallforio gan gollir gwerth. Mae cyfleoedd sylweddol i'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru ddefnyddio ein gwasanaeth ailgylchu o'r radd flaenaf a'r deunyddiau y mae'n eu casglu, ac ailweithgynhyrchu a gweithgynhyrchu mwy o gynnwys wedi'i ailgylchu er mwyn:

- cefnogi newid a dod yn fwy gwydn a chystadleuol mewn economi ddatgarboneiddio fyd-eang ; a
- defnyddio hwn fel cyfle i ysgogi adferiad sydd ddim yn unig yn wyrddach ond hefyd yn fwy gwydn, sy'n cael mwy o werth ychwanegol ac sy'n gwella cystadleurwydd yn y sector gweithgynhyrchu yn awr ac yn y dyfodol.

Mae ein deddfwriaeth datblygu cynaliadwy a'n deddfwriaeth amgylcheddol eisoes yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n arwain y byd, ac yn awr rhaid i ni ddefnyddio'r ddeddfwriaeth honno i fwrw ati i newid yn gyflymach nag erioed.

Rydym wedi ymrwymo i gael sector cyhoeddus sy'n garbon niwtral erbyn 2030 ac i gydlynu'r gwaith i helpu rhannau eraill o'r economi, gan gynnwys y byd academiaidd, diwydiannau a'r trydydd sector, i gefnu ar danwyddau ffosil. Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn nodi 100 o bolisïau a chynigion er mwyn cyrraedd targedau allyriadau carbon 2020.

Mae'r cynllun ar gyfer 2021-26 yn cael ei baratoi, a bydd yn mynd ymhellach ac yn gynt. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu cefnogaeth i amaethyddiaeth

ar ôl cyfnod pontio'r UE. Mae hynny'n gysylltiedig â rheoli tir yn gynaliadwy a chyfrannu'n gadarnhaol at nodau amgylcheddol fel lleihau llifogydd. Mae'r [cynllun adfer natur](#) yn cael ei ddiweddarau er mwyn gweithredu ar frys i gryfhau ein hecosystemau er mwyn gwrthdroi'r dirywiad mewn cynefinoedd a rhywogaethau.

Rydym, felly, yn cynnig sicrhau bod ein hymrwymiaidau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac amddiffyn ein hamgylchedd yn ganolog i'n gwaith ar ddyfodol gweithgynhyrchu.

2) Newid technolegol gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, awtomeiddio, digidoleiddio a'r amgylchedd cysylltiedig

Ym mis Medi 2019, fe wnaethom gyhoeddi "[Cymru 4.0 Cyflawni Trawsnewidiad Economaidd ar gyfer Gwell Dyfodol Gwaith](#)", a gynhaliwyd gan grŵp a gadeiriwyd gan yr Athro Phillip Brown.

Un o themâu cryf adolygiad Brown yw arfogi busnesau yng Nghymru i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid technolegol, yn ogystal â helpu busnesau i fod yn ddeinamig, i ddatblygu modelau busnes newydd ac i feithrin gwytnwch.

Mae cefnogi busnesau i ailddylunio swyddi, a helpu busnesau i dyfu ac addasu, yn argymhellion allweddol yn yr adroddiad. Bydd gweithio ar y cyd â diwydiannau, undebau llafur a'r byd academaidd i hwyluso'r trawsnewid i'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, yn elfen ganolog o'r cynllun gweithgynhyrchu.

Nododd adolygiad Brown rôl clystyrau diwydiannol sy'n cyd-fynd â galluoedd technoleg allweddol, a'r angen i gydweithio â nifer o randdeiliaid er mwyn llunio cynlluniau trawsnewid diwydiannol sy'n ceisio cynyddu capasiti a datblygu gwytnwch mewn gwahanol rannau o economi Cymru. Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried yng ngoleuni'r gonglfaen ddigidol yn ein Strategaeth Ailadeiladu Economaidd arfaethedig.

Cafodd ymchwil, datblygu ac arloesi hefyd eu nodi fel ysgogwyr allweddol wrth ymateb i heriau mwy o ddigidoleiddio ac awtomeiddio, yn enwedig o ran cefnogi busnesau bach a chanolig a'u cadwyni cyflenwi i ddatblygu'n gynt. Mae consortiwm o brifysgolion a phartneriaid yn y diwydiant yng Nghymru eisoes yn bwrw ymlaen â chynigion sylweddol ar gyfer buddsoddiadau strategol newydd ym meysydd craidd deallusrwydd artiffisial, data a seiberddiogelwch (cyflymydd data Cymru a chanolfan arloesi seiberddiogelwch). Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffocws ar gynllun ymchwil a datblygu llywodraeth y DU, a bydd angen cefnogaeth gan gynghorau ymchwil a chyrrff cyllido yn y DU os ydynt am fwrw iddi a llwyddo.

Mae ein mecanweithiau cefnogi arloesedd (SMART) yn helpu busnesau technoleg i drawsnewid sectorau blaenoriaeth a gwasanaethau cyhoeddus yn ddigidol, gan gefnogi technolegau newydd ym maes deallusrwydd artiffisial, awtomeiddio, byw'n glyfar a data. Rydym yn cefnogi mentrau sydd â'r potensial i wella ein henw da fel man blaenllaw o ran darpariaeth ddigidol, deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio, gan gynnwys Academi Meddalwedd Genedlaethol gyntaf y DU ac Academi Seiberddiogelwch Genedlaethol newydd.

Rydym wedi:

- Cyflwyno, drwy Arloesedd SMART, cymorth ymgynghori 3+5 diwrnod i fusnesau gweithgynhyrchu i'w helpu i benderfynu pa mor addas yw prosesau digidol/awtomeiddio newydd, gan gynnwys nodi a chynllunio'r broses o'u rhoi ar waith;
- Cyflwyno grant SMART Cymru gwerth £100,000 i gefnogi cwmnïau i weithredu technolegau digidol ac awtomeiddio sy'n berthnasol i Gronfa Dyfodol yr Economi o dan Faes Gweithredu Ymchwil a Datblygu, awtomeiddio a digidoleiddio; ac
- Yn ystod y rownd hon o gronfeydd strwythurol 2014-2020, mae SMART Cymru wedi rhoi cymorth i 156 o brosiectau digidol a oedd werth £15.6 miliwn i gyd, gyda gwerth £6.7 miliwn o grantiau.

Mae angen i ni gymell cwmnïau yng Nghymru i ddefnyddio technegau a thechnolegau a fydd yn eu helpu i fod yn fwy cadarn mewn cyfnodau o argyfwng, yn ogystal â gwella eu cynhyrchiant a'u twf cynaliadwy yn y tymor hwy. Mae gennym adnodd diagnostig sy'n gallu delio ag awtomeiddio a phrosesau digidol, a thrwy Gronfa Dyfodol yr Economi rydym wedi cefnogi 77 o brosiectau sy'n werth dros £7m drwy'r alwad i gefnogi ymchwil a datblygu, awtomeiddio a digidoleiddio.

Yn ystod y rownd hon o gronfeydd strwythurol 2014-2020, mae SMART Cymru wedi rhoi cymorth i 122 o brosiectau digidol a oedd werth £13.2 miliwn i gyd, gyda gwerth £5.6 miliwn o grantiau. Rydym wedi cyflwyno grant SMART Cymru gwerth £10,000 i gefnogi cwmnïau i awtomeiddio a rhoi technolegau digidol ar waith.

Bydd cefnogi cwmnïau i ddefnyddio technolegau digidol ac awtomeiddio, gan ddefnyddio dull Diwydiant 4.0, yn creu sylfaen gweithgynhyrchu fwy cadarn, ac felly Cymru fwy cadarn. Drwy fabwysiadu technolegau gweithgynhyrchu arloesol, bydd ein busnesau mewn sefyllfa well i fod yn hyblyg er mwyn delio â niferoedd uchel ac isel a llawer o amrywiadau yn eu cynnyrch.

Mae'n bwysig cydnabod y strwythurau cefnogi presennol a'r partiön sydd eisoes wedi ymgysylltu drwy fapio'r sefyllfa bresennol drwy gydweithredu, meithrin gallu a chanfod unrhyw fwlch allweddol ar gyfer gofynion buddsoddi pellach. Mae hyn yn cynnwys mentrau preifat, cyhoeddus ac academaidd. Bydd dull o'r fath nid yn unig yn fwy effeithlon, ond hefyd yn gwneud yr ymgysylltu â'r diwydiant yn broses sy'n canolbwyntio mwy ar ddarparu atebion.

Felly, rydym yn bwriadu mapio'r gefnogaeth a'r cydweithio presennol yn y maes hwn, ac Ymgorffori canfyddiadau ac argymhellion adolygiad Brown yn y camau gweithredu sy'n deillio o'r cynllun gweithgynhyrchu.

3) Yr angen i fireinio sgiliau i sicrhau bod gennym y bobl â'r sgiliau priodol y mae eu hangen arnom yng Nghymru i weithio ym maes gweithgynhyrchu

Tynnodd adolygiad Brown sylw at yr angen i addasu sgiliau i'r newidiadau a ragwelir yn Niwydiant 4.0. Nod ein polisi sgiliau yw cyfuno'r ddarpariaeth rhwng addysg uwch ac addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, hy "addysg ôl-orfodol", ac felly mae'n mynd i'r afael â natur newidiol diwydiant a swyddi ynghyd â bywyd gwaith hirach pobl.

Ar y sail honno, dylai cyngor ar yrfaeodd dargedu oedolion yn ogystal â phlant ysgol a phobl ifanc. Nodweddir llawer o rannau o'r sector gweithgynhyrchu gan weithlu sy'n heneiddio. Bydd angen i'r gweithwyr hyn addasu ac ailhyfforddi ar gyfer swyddi newydd wrth i'r diwydiant newid. Yn hyn o beth, efallai y bydd lle i leoliadau o safon i roi cyfle i unigolion gael profiad o'r cyfleoedd yn y sector, helpu i roi sgiliau ymarferol iddynt a bod yn gyfrwng recriwtio gwerthfawr i gyflogwyr.

Cylch gwaith y partneriaethau sgiliau rhanbarthol yw ystyried Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, a nodi'r gofynion sgiliau sy'n deillio o hynny. Felly, bwriadwn weithio gyda'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol i gynnal, lle bo hynny'n briodol, ddadansoddiadau o'r bwch sgiliau er mwyn i adnoddau addysgol allu cefnogi gweithgynhyrchu'n well.

4) Darparu seilwaith modern i gefnogi newidiadau yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn cael cyfleoedd gwaith, gan gynnwys safleoedd ac adeiladau cyflogaeth modern, seilwaith trafndiaeth, seilwaith economi gylchol ac ynni, systemau cyfathrebu a chyfuno symudedd personol a chyhoeddus

Mae seilwaith modern yn hanfodol i helpu'r sector gweithgynhyrchu i ddiogelu ei weithgareddau at y dyfodol. Wrth sôn am seilwaith, rydym yn golygu:

- safleoedd ac adeiladau cyflogaeth, hy ffatrioedd, swyddfeydd ac ati a all ddarparu ar gyfer ffyrdd modern o weithio;
- seilwaith trafndiaeth sy'n gallu ymateb i batrymau gweithio gwahanol;
- seilwaith ynni, sy'n galluogi safleoedd cyflogaeth i weithredu ac sy'n cael ei ddatgarboneiddio fwy a mwy;
- seilwaith economi gylchol, sy'n ei gwneud yn bosibl i aildefnyddio adnoddau; a
- systemau cyfathrebu sy'n caniatáu i ni weithio mewn ffordd gysylltiedig.

Rydym yn rhagweld fwy a mwy y posibilrwydd o gerbydau awtomatig yn cymylu'r llinellau rhwng symudedd personol a symudedd cyhoeddus, a phwyslais cynyddol ar weithio o bell. Rydym yn buddsoddi'n helaeth mewn trafndiaeth gyhoeddus, gan gynnwys yn ein systemau Metro ar gyfer Gogledd a De Cymru. Er bod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n drwm ar hyn, byddwn yn parhau â'n cynlluniau ar gyfer rhagor o fuddsoddi – gan gynnwys buddsoddi mewn seilwaith ffyrdd – a rhaid i'r cynllun gweithgynhyrchu ystyried hyn.

Mae cyfathrebu'n dal yn heriol mewn rhannau o Gymru, ac yn y byd cysylltiedig hwn gall hyn gael effaith negyddol ar weithgarwch gweithgynhyrchu. Dylai pob cynllun adlewyrchu pwysigrwydd systemau modern. Bydd y newidiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y ceir mynediad at gyfleoedd gwaith ym maes gweithgynhyrchu.

Felly, rydym yn cynnig bod anghenion y sector gweithgynhyrchu yn cael llawer o sylw yn y gwaith a wneir ar seilwaith i hybu cystadleurwydd a chynhyrchiant economi Cymru.

5) Ymrwymadau gwaith teg i sicrhau bod pobl sy'n gweithio ym maes gweithgynhyrchu yn cael eu trin yn deg, yn unol â contract economaidd Llywodraeth Cymru a'i chod ymarfer ar gyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi

Trin pobl yn deg yn eu gwaith fel rhan hanfodol o'n dull o gefnogi busnes. Drwy'r [Comisiwn Gwaith Teg](#) a'r adroddiad Gwaith Teg yng Nghymru, mae'r gwaith wedi dechrau o feddwl yn y tymor hir am natur newidiol byd gwaith, effeithiau cynnydd yn y boblogaeth, pobl yn byw'n hirach, globaleiddio a'r angen i gofleidio patrymau gweithio gwahanol i ymdopi â hyn.

Mae'n bwysig bod y cynllun gweithgynhyrchu'n galluogi dull cydweithredol i sicrhau bod dyfodol byd gwaith yn deg. Er y gellir cydnabod yn hanesyddol fod cydweithredu rhwng y diwydiant a'r cyrff sy'n cynrychioli gweithwyr wedi darparu sylfaen dda ar gyfer gwaith teg, mae elfennau pwysig i'w gwella o hyd.

Yn 2017, fe wnaethom lansio'r cod ymarfer ar [gyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi](#).

Gwnaethom annog sefydliadau i ymrwymo i'r 12 ymrwymiad, a fydd yn help i ddileu arferion cyflogaeth anfoesol ac anghyfreithlon, a sicrhau bod pob gweithiwr ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi yn cael ei drin yn deg. Mae dros 200 o sefydliadau wedi ymrwymo i'r cod. Mae ein hymrwymiad i waith teg a thwf economaidd cynhwysol yn golygu na allwn gefnogi swyddi am unrhyw bris – rydym am gael cyflogaeth deilwng sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i waith teg.

Felly, rydym yn bwriadu gweithredu ein hymrwymiad i waith teg yn y sector gweithgynhyrchu drwy bartneriaethau rhwng y llywodraeth, diwydiannau, undebau llafur a'r byd academaidd.

6) Cryfhau'r cydweithio rhwng y llywodraeth, diwydiannau, undebau llafur a'r byd academiaidd i gynyddu arloesedd drwy ddefnyddio ymchwil i wella cystadleurwydd

Mae gennym hanes rhagorol o weithio mewn partneriaeth â diwydiannau, undebau llafur a'r byd academiaidd drwy ein dull partneriaeth gymdeithasol, ac mae'n amlwg y gall y dull cydgysylltiedig hwn gael effaith gadarnhaol iawn os yw'n canolbwyntio ar y sector gweithgynhyrchu, drwy helpu i gynyddu capasiti a gallu.

Er bod llawer o arferion da yn y maes hwn, gellir gwella'r ffordd systematig mae diwydiannau'n cydweithio â rhanddeiliaid eraill. Dylai'r gwelliannau hyn ystyried "sut" a "pam" cydweithio, yn ogystal â chanolbwyntio ar ofynion yr economi yn y dyfodol.

Gellir ystyried ymyriadau fel hyfforddiant ar ISO 44001 (y safon ryngwladol ar gyfer cydweithio), digwyddiadau brechwast, cyfleoedd rhwydweithio a datblygu'r gymuned fusnes. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i lwyfannau digidol hwyluso cydweithio.

Rydym hefyd yn darparu buddsoddiadau ymchwil a datblygu mewn busnesau drwy SMART Cymru, yn ogystal â sicrhau y bydd lefel y cyllid ymchwil a datblygu a ddaw o'r tu allan i Gymru yn cynyddu. Mae hyn yn cynnwys Horizon 2020, cyllid Innovate UK a chronfeydd Her y Strategaeth Ddiwydiannol.

Hefyd, mae angen chwalu'r rhwystrau rhag cydweithio os ydym am ddod o hyd i arferion da a meithrin hyder a chapasiti. Mae'n bwysig ein bod yn dangos arweiniad ar hyn, ac yn helpu i ddod â phartion at ei gilydd i lunio cynllun cydlynus. Dylai hyn gynnwys datblygu atebion arloesol ymysg cyrff yn y sector cyhoeddus drwy roi prosiectau cydweithredol ar waith.

Rydym hefyd am weithio gyda phartneriaid mewn diwydiannau, undebau llafur a'r byd academiaidd i fanteisio ar gyfleoedd ar lefel y DU ar gyfer twf a buddsoddiad. Ym mis Mawrth 2020, ymrwymodd llywodraeth y DU i ehangu'r gefnogaeth fwyaf erioed ar gyfer ymchwil ac arloesi sylfaenol, gan gynyddu'r buddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil a datblygu i £22 biliwn y flwyddyn erbyn 2024 i 2025. Ym mis Gorffennaf 2020, [cyhoeddodd llywodraeth y DU ei chynllun ymchwil a datblygu](#) sy'n nodi ei huchelgais i gyfrannu at yr agenda lleoedd, yr angen am dalent ac amrywiaeth ym maes ymchwil ac arloesi'r DU, dyhead i wella'r diwylliant ymchwil a chreu corff Asiantaeth Prosiectau Ymchwil Uwch (ARPA).

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i gynyddu'n sylweddol y buddsoddiadau ymchwil a datblygu dros y tair blynedd nesaf, ond mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei ddefnyddio i wireddu ymrwymiad llywodraeth y DU i 'ddringo i'r lefel nesaf' ac i roi pwyslais cryfach ar leoedd. Er mwyn 'Dringo i'r lefel nesaf' go iawn, rhaid i hynny olygu mwy na llond llaw o brosiectau newydd a bennir yn Whitehall – rhaid i hynny fod yn rhan o ddull strategol o hybu twf ym mhob rhan o'r DU. Rhaid iddo hefyd olygu mwy na dim ond mynediad cyfartal at gyllid UKRI: rhaid iddo olygu cau'r bwll rhwng y Triangl Aur a gweddill y DU o ran buddsoddiad cyhoeddus – a chyffredinol – mewn ymchwil a datblygu fel cyfran o gynnyrch domestig gros. Mae hyn yn gofyn am rywfaint o wahaniaethu cadarnhaol er mwyn gwrthsefyll manteision cynhenid màs critigol y mae Rhydychen, Caergrawnt a Llundain yn elwa ohono. Rhywbeth sy'n cynnwys

Ilywodraethau datganoledig mewn ffordd ystyrlon yn y gwaith o'i ddylunio a'i lywodraethu.

Bydd y ffordd rydym yn cydweithio gyda phartneriaid cymdeithasol ac eraill dros y blynyddoedd nesaf yn bwysig hefyd. Byddwn yn defnyddio cyngor cysgodol y bartneriaeth gymdeithasol, yn ogystal â sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig newydd ar lefel ranbarthol i gefnogi twf ym mhob rhan o Gymru. Ein dull o weithredu fydd cydblethu cefnogaeth ar gyfer gweithgynhyrchu gyda chyfleoedd eraill ar draws y llywodraeth, gan gynnwys drwy strwythurau buddsoddi ranbarthol newydd ar ôl Brexit.

Felly, rydym yn cynnig adolygiad o'r gwaith partneriaeth presennol rhwng y llywodraeth, diwydiannau, undebau a'r byd academiaidd er mwyn sefydlu dull gweithredu mwy cydlynol a chydlynus, gyda'r bwriad o gynyddu'r gwaith ymchwil a datblygu a wneir yng Nghymru.

7) Datblygu cymunedau a chlystyrau o fewn is-sectorau gweithgynhyrchu i ddatblygu diwylliant o wella arferion gorau a chydweithredu yn barhaus

Mae adolygiad Brown yn argymhell creu chwe chlwstwr Arloesi Diwydiannol:

- dadansoddi data;
- ynni glân/economi gylchol;
- creadigol;
- gwasanaethau proffesiynol;
- meddygol/biotechnoleg; a
- gweithgynhyrchu uwch.

Ystyrir y rhain yn asedau strategol er mwyn galluogi Cymru i gystadlu ar lefel uwch mewn cadwyni gwerth domestig a byd-eang.

Mae nifer o glystyrau neu gymunedau yn bodoli eisoes mewn meysydd fel awyrofod, modur, bwyd, hydrogen, ynni'r môr, niwclear, technoleg a lled-ddargludyddion sydd wedi'u sefydlu ers cryn amser. Rydym ni'n credu y bydd adeiladu ar y llwyddiant hwn, ac ystyried argymhellion Adolygiad Brown, yn dod â manteision i'r sector gweithgynhyrchu drwyddo draw. Byddai'r gwaith mapio cychwynnol a gynigir yn profi'r dull clystyrau yma fel y nodwyd yn Adolygiad Brown, gan nodi'r cryfderau a'r cyfleoedd yng Nghymru.

Er nad yw pob un o'r cymunedau hyn yn cael cymorth ariannol, hoffem eu cefnogi – os ydyn nhw'n fodlon gweithio gyda ni – gyda strategaethau ac awgrymiadau ynghylch cyfeiriad, i sicrhau ein bod ni'n cynnig agwedd barhaus gydlynus i'r cymunedau busnes niferus sydd wedi'u gwasgaru ar hyd a lled Cymru. Y prif ffocws fydd sicrhau bod gan eu haelodau gysylltiad â sefydliad credadwy a dylanwadol er mwyn:

- casglu a thrafod gwybodaeth am y farchnad
- defnyddio cyfleoedd rhwydweithio i fynd ati i gydweithio ar synergedd yn y gadwyn gyflenwi
- datblygu arloesedd yn gyflym drwy rannu gwybodaeth
- sicrhau budd masnachol i'r aelodau

Drwy'r cymunedau busnes hyn, gallwn hefyd hyrwyddo'r angen am strategaeth ac arweiniad ynghyd â'r potensial i gynllunio ar gyfer olyniaeth.

Felly rydym yn bwriadu ystyried argymhellion Adolygiad Brown ar glystyrau, a defnyddio'r data o'r ymarfer mapio i nodi cryfderau Cymru. Ar ôl nodi'r cryfderau hynny, byddwn ni'n mynd ati i gysylltu a chynnig cefnogaeth.

8) Cryfhau arweinyddiaeth a rheolaeth ym maes gweithgynhyrchu drwy nodi sgiliau allweddol fel strategaeth a gweithredu a rheoli risg, er mwyn cynnal a datblygu busnesau

Un o'r prif amcanion yw sicrhau dyfodol hirdymor i'r sector yng Nghymru. I wneud hynny, mae angen i ni adeiladu ar y profiad helaeth a'r arbenigedd aruthrol sydd gennym ar hyn o bryd, a defnyddio hynny i ledaenu arferion gorau.

Rydym yn mynd ati'n barhaus i chwilio am arferion gorau ym mhob cwr o'r byd gyda chyrrff fel Sefydliad Technoleg Massachusetts, er mwyn dod ar draws ffyrdd newydd o feddwl. Hefyd, mae gan ein prifysgolion lawer o brosiectau cydweithredol ar y gweill gyda sefydliadau mewn gwledydd eraill, sy'n dod â syniadau i Gymru. Mae Cymru hefyd yn gartref i nifer fawr o gwmnïau byd-eang sy'n arweinwyr yn eu maes, ac mae angen i ni ddefnyddio'r arbenigedd, y profiad a'r syniadau newydd hyn er mwyn i ni allu creu cymuned sy'n ceisio gwella arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae nifer o sefydliadau/fforymau eisoes yn bodoli sy'n mynd i'r afael ag elfennau o hyn, fel y Grŵp Arweinwyr – sy'n cael ei redeg gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – a rhoddir ystyriaeth i ddatblygu rhwydweithiau o amgylch y rhwydweithiau presennol hyn.

Bydd cymharu ein perfformiad â rhanbarthau eraill, fel Mittelstand, yn ein helpu ni i wella. Mae busnesau bach a chanolig yn elfen bwysig o lwyddiant economaidd yr Almaen, ac mae ganddynt rôl nodedig gan eu bod yn seilio eu cystadleurwydd ar ddarparu gwerth uwchraddol, ac nid costau is. Fe'u nodweddir gan lefelau uchel o arloesi, pwyslais cryf ar allforio a pherchnogaeth breifat / deuluol.

Rydym yn bwriadu canolbwyntio ar y ddau ffactor sy'n sbarduno perfformiad cwmnïau; strategaeth a gweithredu – y dewisiadau strategol a wneir, a'r strwythur sefydliadol dilynol a'r adnoddau a ddefnyddir i gyflawni'r strategaeth. Mae creu cynnyrch o safon, cynnig gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid, datblygu a defnyddio talent yn amcanion y bydd pob cwmni'n anelu atynt fel rhan o'i weithrediadau effeithiol, ar ôl gwneud dewisiadau strategol a dewis safbwynt y busnes.

Mae dewis cynnyrch a marchnadoedd yn benderfyniadau sylfaenol er mwyn bod yn wahanol i gystadleuwyr, ac mae pob dewis yn golygu lefel wahanol o risg sy'n ymwneud ag ansicrwydd o ran y galw ymysg cwsmeriaid, cystadleuwyr annisgwyl a newidiadau mewn technoleg. Mae llai o risg ynghlwm wrth weithredu'r strategaeth, gan fod hynny'n digwydd yn y sefydliad, ond eto mae hynny'n cynnwys ansicrwydd yn ei systemau economaidd-dechnegol. Mae ar bob busnes eisiau 'gweithredu'n berffaith', ond yr her i arweinwyr yw'r penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud i ddewis y dimensiynau penodol hynny a fydd yn hoelio sylw ac yn sicrhau llwyddiant.

Rydym ni'n bwriadu creu cymunedau o arferion gorau gydag arweinwyr ar draws y sector gweithgynhyrchu, sy'n barod i rannu ag eraill ac i ddysgu gan gyrff fel MIT. Rydym hefyd yn bwriadu meincnodi rhanbarthau eraill, gan gynnwys Mittelstand.

9) Cadernid y gadwyn gyflenwi a chefnogi'r economi sylfaenol, gan gynnwys y posibilrwydd o ddod â'r gwaith o weithgynhyrchu eitemau – sy'n hanfodol i lesiant Cymru – yn ôl i Gymru

Mae gan lawer o'n gweithrediadau gweithgynhyrchu gadwyni cyflenwi, sy'n gallu bod yn hir a llinol ac ymestyn ar draws y byd. Mae pandemig COVID-19 wedi profi bod y cadwyni cyflenwi hyn yn gallu bod yn simsan, yn hir, yn gymhleth ac felly'n fregus. Mae'n dangos i ba raddau mae cymdeithas yn dibynnu ar weithrediad llyfn cadwyn gyflenwi.

Yn ystod argyfwng COVID, tarfwyd ar gadwyni cyflenwi byd-eang llawer o gwmnïau, wrth i'w cadwyn gyflenwi – a oedd ond yn ddigon o drwch blewyn, ac a oedd ond yn cyrraedd mewn pryd o drwch blewyn – fethu. Rydym wedi gweithio gyda diwydiannau ar gyflenwi cyfarpar diogelu personol ac eitemau eraill sy'n hanfodol i lesiant Cymru, mewn ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â phrinder ac i amddiffyn gweithwyr rheng flaen. Mae llwyddiant yr ymdrech hon wedi tynnu sylw at dri mater:

- Pe bai pandemig neu drychineb byd-eang arall, byddai ein cadwyni cyflenwi ar gyfer cyfarpar diogelu personol/eitemau meddygol mewn perygl, yn ogystal ag eitemau eraill fel bwyd a deunyddiau crai neu gydrannau a ddefnyddir gan weithgynhyrchwyr yng Nghymru.
- Er ei bod efallai'n ddymunol dod â'r gwaith o weithgynhyrchu llawer o eitemau yn ôl i Gymru, mewn rhai achosion nid yw hynny'n bosibl, felly mae'n rhaid i ni sicrhau bod cadwyni cyflenwi yn gadarn ar gyfer y dyfodol. Gallai hyn olygu cadw lefelau diogel o stoc yn y gadwyn gyflenwi, neu weithio gyda chadwyni cyflenwi sy'n nes i'r DU.
- Mae COVID-19 wedi bod yn wers bwerus ar risgiau cadwyni cyflenwi llinol, hir. Wrth ailgynllunio modelau busnes, bydd angen ystyried sut mae busnesau'n gallu cryfhau eu cadwyn gyflenwi, gan gyfrannu hefyd at adferiad gwyrdd drwy gadwyni cyflenwi cylchol.

Mae'r gwaith wedi dechrau i edrych ar gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus ar gyfer cyfarpar diogelu personol a bwyd. Mae hyn yn amlwg yn fater pwysig i'n gweithgynhyrchwyr, ac o bosibl yn gyfle i ddatblygu ein sector gweithgynhyrchu mewn rhai meysydd. Mae sectorau fel iechyd, ynni, adeiladu, rheilffyrdd ac amddiffyn yn dibynnu ar gyllidebau a pholisïau yn y sector cyhoeddus, ac felly mae gan y sector cyhoeddus fwy o ddylanwad dros y cadwyni cyflenwi yn y meysydd hyn nag mewn sectorau eraill fel awyrofod a modur.

Fodd bynnag, er y bydd ymdrechion i fyrhau cadwyni cyflenwi mewn sawl sector yn dod â chyflenwyr haen un a haen dau yn nes at ei gilydd yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n aml yn eithriadol o anodd newid elfennau echdynnu deunyddiau crai yn y gadwyn gyflenwi. Nid yw byrhau'r gadwyn gyflenwi yn datrys y broblem datgarboneiddio yn llwyr. Bydd newid sylfaenol tuag at fodolau busnes cylchol yn cynnal gwerth adnoddau a chynnyrch. Bydd hyn yn cynnwys ystod o gamau gweithredu sy'n rhan o'r model economi gylchol, fel atgyweirio, adnewyddu, addasu at ddibenion gwahanol, ac ailgylchu.

Mae angen i ni hefyd ystyried y tebygolrwydd y bydd trefniadau yn y dyfodol gyda'r UE yn golygu na ellir cyfuno elfennau sy'n dod o'r UE â rhai'r DU er mwyn cyrraedd

targedau rheolau tarddiad ar gyfer allforio i weddill y byd. Mae hynny'n golygu y gallai fod yn fanteisiol i fusnesau yn y DU ddod o hyd i gyflenwyr yn y DU. Ar y llaw arall, mae'n bosibl iawn y bydd busnesau bach a chanolig yn y sector gweithgynhyrchu yn gweld prinder marchnadoedd yn yr UE, oherwydd ei bod yn well gan gwsmeriaid yn yr UE ddod o hyd i gyflenwyr sydd o fewn 27 gwlad yr UE. Hefyd bydd rhwystrau rheoleiddio newydd ar fasnachu, a allai fod yn anodd i fusnesau sydd ond wedi 'allforio' i'r UE yn y gorffennol. Bydd angen i ni roi mwy o gefnogaeth i'r busnesau hyn wrth iddyn nhw roi systemau ar waith, a chynyddu'r gefnogaeth ar gyfer allforio er mwyn gwneud iawn am yr anawsterau.

Mae angen i ni hefyd ystyried y cytundebau masnach rydd posibl gyda marchnadoedd y tu allan i'r UE, a gweithio gyda llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau gweithgynhyrchu Cymru yn cael eu hybu.

Felly rydym yn cynnig bod y cynllun gweithgynhyrchu'n ystyried pa gynnyrch, deunyddiau crai ac elfennau sy'n hanfodol i lesiant Cymru, ac yn ystyried sut gallwn ni sicrhau cyflenwadau os bydd argyfwng byd-eang fel y pandemig presennol.

Rydym hefyd yn cynnig mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil gadael marchnad sengl yr UE.

10) Sicrhau bod busnesau wedi'u hangori'n gryfach yng Nghymru drwy annog a hwyluso swyddogaethau gwneud penderfyniadau fel pencadlys, ymchwil a datblygu, gwerthu a marchnata a chaffael yng Nghymru

Mae'r penderfyniad i angori busnes mewn gwlad neu ranbarth penodol yn seiliedig ar amryw o resymau, gan gynnwys y themâu sydd eisoes wedi'u nodi fel sgiliau, cadwyn gyflenwi, cymorth i arloesi, a llwybr i'r farchnad (caffael). Yn rhy aml, fodd bynnag, mae'r cwmnïau canolig eu maint yng Nghymru yn gyfrifol am waith gweithgynhyrchu rhagorol cwmni mwy, y mae ei swyddogaethau gwneud penderfyniadau'n ymwneud â nifer o fentrau Ewropeaidd neu fyd-eang.

Felly, mae'n hollbwysig cael dull cytbwys o sicrhau twf organig a mewnfuddsoddiad wedi'i dargedu/penodol hollbwysig, sy'n annog cwmnïau i symud eu swyddogaethau gwneud penderfyniadau allweddol i'w cyfleusterau yng Nghymru.

Mae clystyru yn ôl meysydd cryfder a datblygu canolfannau rhagoriaeth hefyd yn rhan bwysig o hyn. Dylid adolygu rôl y canolfannau presennol a'r canolfannau newydd i ystyried y broses hon o ddatblygu rhagoriaeth sy'n seiliedig ar le, a helpu i sicrhau bod y penderfyniad i leoli yn amlwg i'r rheini sy'n gwneud y penderfyniad.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, gwnaed buddsoddiadau mewn cyfleusterau o'r fath, gan gynnwys y catapwlt lled-ddargludyddion cyfansawdd, AMRC Cymru, M-Sparc ymysg llawer o rai eraill.

Mae AMRC Cymru yn dwyn ynghyd ddiwydiannau a'r byd academiaidd a phob elfen o addysg ôl-orfodol, er mwyn cefnogi ymchwil a datblygu yng Nghymru. Hefyd, mae'n aelod o'r Catapwlt Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth, consortiwm o ganolfannau ymchwil gweithgynhyrchu a phrosesau blaenllaw a gefnogir gan Innovate UK. Mae ein cynlluniau ar gyfer buddsoddi pellach yn cynnwys creu Canolfan Ymchwil Dechnegol Uwch (ATRC) yn safle Sealand y Weinyddiaeth Amddiffyn, Glannau Dyfrdwy. Yr uchelgais yw creu menter ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ddatblygu a chefnogi meddalwedd afionig. Dyma'r tro cyntaf i'r Weinyddiaeth Amddiffyn gydweithio â gweinyddiaeth ddatganoledig yn y sector amddiffyn.

Yn ein barn ni, bydd y mathau hyn o gyfleusterau ynghyd â'r manteision y gall Cymru eu cynnig o ran sgiliau, seilwaith a'r holl themâu eraill a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon, yn golygu y bydd cwmnïau – boed yn gwmnïau tramor neu'n rhai cynhenid – yn dymuno aros yng Nghymru, a gwneud penderfyniadau strategol am eu busnes yng Nghymru.

Bydd ein cefnogaeth i arloesi yn allweddol, yn ein barn ni, i ddenu a chadw busnesau yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r gefnogaeth i arloesi yn ceisio cyflawni'r agendâu digidol, cynhyrchiant a Diwydiant 4.0, ynghyd â'r flaenoriaeth fwy diweddar o feithrin cadernid Cymru. Drwy gydol argyfwng COVID-19, rydym wedi defnyddio systemau dibynadwy i sicrhau newidiadau cyflym. Rydym wedi cymeradwyo 32 o brosiectau, gan gynnig grantiau a oedd werth dros £3.6 miliwn i gyd. Mae hyn wedi helpu i ddiogelu tua 300 o swyddi, gyda 250 o swyddi eraill yn osgoi ffyrlo. Mae dros £1.1 miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn prosiectau i ddarparu cyfarpar diogelu personol, a fydd yn helpu i gynnig cadernid a sicrwydd meddygol yn y tymor hwy i Gymru. Rydym hefyd yn helpu sefydliadau ymchwil i ddarparu dyfeisiau meddygol, fel ocsifesyryddion pwls ar y bys.

Mae £500,000 wedi cael ei fuddsoddi mewn prosiectau rheoli haint sy'n defnyddio methodolegau profi a sgrinio, ac rydym bellach wedi ehangu ar ein hymateb arloesol i [COVID-19 i gefnogi arferion newydd ar weithio'n ddiogel](#).

Rydym bellach yn cael ein cydnabod gan Innovate UK fel ymarferydd blaenllaw wrth weithredu cystadlaethau GovTech a SBRI yn y sector cyhoeddus, sy'n ysgogi atebion newydd i heriau mawr ym maes gweithgynhyrchu.

Rydym yn weithgar iawn ym maes ymgysylltu tramor, a Chymru yw cadeirydd presennol Menter Vanguard. Rydym yn Gadeirydd ar 35 o ranbarthau sy'n aelodau o'r UE, yn cyfrannu'n llawn at ddwy o raglenni gweithgynhyrchu Interreg – Manumix a Cohes3ion – ac yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn prosiectau Diwydiant 4.0 ar y cyd â rhanbarthau rhyngwladol allweddol fel Barden Wurtemberg a Gwlad y Basg.

Yn ein barn ni, mae cael cefnogaeth i arloesi yn elfen bwysig o "ddarpariaeth" Cymru, a byddem yn rhagweld rhagor o fuddsoddiad mewn prosiectau arloesol a fydd, yn y pen draw, yn gwella llesiant Cymru.

Felly rydym yn bwriadu dod â chefnogaeth i arloesi, ymchwil a datblygu at ei gilydd, a defnyddio ein buddsoddiadau mewn cyfleusterau fel AMRC ac ATRC i helpu i ddiogelu ein cymuned gweithgynhyrchu at y dyfodol.

Sylwadau clo

Mae gweithgynhyrchu'n hanfodol i lesiant Cymru yn y dyfodol, ac mae angen i ni baratoi cefnogaeth a hwyluso prosesau cydweithio rhwng y llywodraeth, diwydiannau, undebau llafur a'r byd academiaidd er mwyn diogelu'r sector at y dyfodol. Mae argyfwng COVID-19 wedi dangos cymaint rydym yn dibynnu ar y sector, a'i bod yn rhaid i ni ddysgu gwersi o'r profiad.

Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid diwygio ac addasu'r cynllun arfaethedig yn unol â gofynion a chryfderau rhanbarthol. Bydd gwreiddio gweithgynhyrchu yn ein cymunedau ar sail deunyddiau (cychwynnol neu wedi'u hailgylchu), gan ddatblygu cadwyn gyflenwi leol i gynhyrchu nwyddau gorffenedig y gellir eu gwerthu yng Nghymru a'u hallforio, a honno'n gadwyn sydd wedi cael ei datblygu a'i gwneud gan bobl yng Nghymru, yn dod â ffyniant i bawb.

Mae cynnwys y ddogfen ymgynghori hon yn cyfeirio at ddull gweithredu cydweithredol mwy cydlynol gan y llywodraeth, diwydiannau, undebau llafur a'r byd academiaidd. Felly, rydym yn bwriadu sefydlu panel o dan arweiniad gweinidogion i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau yn y cynllun hwn, a neilltuo adnoddau i gefnogi'r gweithgarwch a ddisgrifir.

Ymgynghori Ffurflen Ymateb

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

C1: Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o weithgynhyrchu uchel ei werth fel y mae'n cael ei ddisgrifio, a'i bwysigrwydd o ran diogelu'r sector at y dyfodol?

C2: Ydych chi'n cytuno â'r themâu a nodwyd, y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt er mwyn helpu i ddiogelu'r sector at y dyfodol?

C3: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a gynigir, ac a oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ychwanegol ynghylch sut gellir cyflawni'r ymrwymadau yn y cynllun?

Cwestiwn A: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai'r cynllun gweithgynhyrchu yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn B: Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddiennw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.